

Hawliau Plant
Cymru

Children's Rights
Wales



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2020–21

Tachwedd 2021

**YMATEB GAN LYWODRAETH CYMRU I ADRODDIAD BLYNYDDOL
COMISIYNYDD PLANT CYMRU 2020-21**

Rhagair gan

**Y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS
Prif Weinidog Cymru**



a

Jane Hutt AS,

Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol



RHAGAIR

Fel Llywodraeth, rydym yn croesawu adroddiad blynyddol y Comisiynydd Plant ar gyfer 2020/21.

Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021 sy'n cynnwys yr ymateb i bandemig Covid-19. Rydym yn cydnabod yr adroddiad hwn yn y cyd-destun hwnnw ynghyd ag effaith y pandemig ar blant a phobl ifanc. Nid yw'r flwyddyn ddiwethaf hon wedi bod yn debyg i unrhyw un arall – yn enwedig i blant a phobl ifanc. Mae'r pandemig yn parhau i effeithio ar eu bywydau ac ar fywydau eu ffrindiau a'u teuluoedd.

Dyma flwyddyn olaf yr Athro Sally Holland fel Comisiynydd Plant Cymru, a hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i gydnabod ei chyfraniad at ddiogelu a hyrwyddo hawliau plant yng Nghymru. Mae'r Athro Holland wedi bod yn eiriolwr diflino ar ran plant a phobl ifanc, gan hyrwyddo eu hawliau a'u lles – yn ystod y pandemig hwn yn gymaint ag erioed.

Rydym am ddiolch i'r Comisiynydd am ei hymdrechion i sicrhau bod lleisiau plant yn cael eu clywed gan Lywodraeth Cymru, ac am ei diwydrwydd wrth ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif am yr hyn y mae'n ei wneud i ddiogelu a hyrwyddo hawliau plant. Yn benodol, hoffem ddiolch i'r Comisiynydd am ei gwaith, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, y Senedd leuenctid a Phlant yng Nghymru, ar y Coronafeirws a'r arolygon ymhlith plant a phobl ifanc. O ganlyniad i'r arolygon ym mis Mai 2020 ac Ionawr 2021, bu'n bosibl inni glywed barn bron i 44,000 o blant a phobl ifanc a ddywedodd wrthym sut yr oedd y pandemig yn effeithio ar eu bywydau nhw.

Mae'r adroddiad blynyddol yn gyfle pwysig inni bwysu a mesur y cynnydd sy'n cael ei wneud ac i ystyried galwadau'r Comisiynydd inni fynd ymhellach.

Mae ein hymrwymiad i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn parhau ac rydym yn falch o'n record o ran hyrwyddo hawliau plant. Mae'r Confensiwn yn parhau i fod yn sail i'n holl benderfyniadau polisi sy'n effeithio ar blant ac yn cefnogi ein dull o wella sefyllfa plant drwy eu helpu a'u cefnogi i gyflawni eu potensial.

Yn ei hadroddiad blynyddol ar gyfer 2020/21, gwnaeth y Comisiynydd Plant 18 o argymhellion i Lywodraeth Cymru. Rydym yn falch fel Llywodraeth o dderbyn, neu dderbyn mewn egwyddor, bob un ond un o'r argymhellion.

Cynnwys

CYFLWYNIAD	4
AMGYLCHEDD TEULU A GOFAL AMGEN	5
1. <i>Elw mewn gofal cymdeithasol i blant.....</i>	5
2. <i>Hawliau statudol i'r rhai sy'n gadael gofal.....</i>	6
3. <i>Rhianta corfforaethol</i>	7-8
4. <i>Glasbrint Cyfiawnder Ieuencid.....</i>	9
5. <i>Strategaeth Gofalwyr Di-dâl</i>	10-11
ADDYSG, DINASYDDIAETH A GWEITHGAREDDAU DIWYLLIANNOL.....	12
6. <i>Cwricwlwm i Gymru</i>	12
7. <i>Dysgu proffesiynol.....</i>	13
8. <i>Cymwysterau galwedigaethol.....</i>	14-15
9. <i>Adolygiad o drafnidiaeth dysgwyr.....</i>	16
10. <i>Dull ysgol gyfan o ymdrin â llesiant</i>	17
11. <i>Addysg yn y cartref</i>	18
12. <i>Ysgolion annibynnol</i>	19-20
13. <i>Gwahardd Disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen</i>	21
SAFON DDIGONOL O FYW.....	22
14. <i>Rhaglen Law yn Llaw dros Blant a Phobl Ifanc</i>	22-23
15. <i>Pontio rhwng gwasanaethau iechyd.....</i>	24
16. <i>Eiriolaeth annibynnol cysylltiedig â iechyd</i>	25
17. <i>Diwygio gofal cymdeithasol.....</i>	26
18. <i>Adolygiad o'r bwyd y gellir ei hawlio mewn ysgolion</i>	27-28
Atodiad A – Crynodeb o Ymateb Llywodraeth Cymru	29-31

CYFLWYNIAD

Cyhoeddodd Comisiynydd Plant Cymru ei hadroddiad blynyddol a'i chyfrifon ar gyfer 2020-21 ar 5 Hydref 2021. Gellir gweld yr adroddiad [yma](#).

Mae'r Comisiynydd wedi gwneud 18 o argymhellion i Lywodraeth Cymru eu hystyried a darparu ymateb. Mae'r argymhellion yn cwmpasu ystod eang o feysydd ar draws Llywodraeth Cymru, gan gynnwys:

- Elw mewn gofal cymdeithasol i blant;
- Hawliau statudol i'r rhai sy'n gadael gofal;
- Rhianta corfforaethol a throsteddu ymhlith Plant sy'n Derbyn Gofal;
- Glasbrint cyfiawnder ieuencid;
- Strategaeth gofalwyr di-dâl;
- Cwricwlwm i Gymru;
- Dysgu proffesiynol;
- Cymwysterau galwedigaethol;
- Adolygiad o drafnidiaeth dysgwyr
- Dull ysgol gyfan o ymdrin â llesiant;
- Addysg yn y cartref;
- Ysgolion annibynnol;
- Gwahardd disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen;
- Rhaglen Law yn Llaw dros Blant a Phobl Ifanc;
- Pontio rhwng gwasanaethau iechyd;
- Eiriolaeth annibynnol cysylltiedig â iechyd;
- Diwygio gofal cymdeithasol; ac
- Adolygiad o'r bwyd y gellir ei hawlio mewn ysgolion.

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn 13 o argymhellion, yn derbyn pedwar mewn egwyddor ac yn gwrthod un argymhelliad.

Mae'r ddogfen hon yn nodi pob un o argymhellion y Comisiynydd, ac yna ymateb Llywodraeth Cymru. Mae Atodiad A yn cynnwys trosolwg o'r argymhellion a'r ymateb cyffredinol.

AMGYLCHEDD TEULU A GOFAL AMGEN

1. Elw mewn gofal cymdeithasol i blant

Argymhelliad y Comisiynydd Plant:

Rhaid i Lywodraeth Cymru gyflwyno map erbyn 1 Ebrill 2022 sy'n nodi amserlen a champau gweithredu y byddant yn eu cymryd i ddechrau dod ag elw i ben yn y ddarpariaeth gofal cymdeithasol i blant.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

Sefydlwyd Bwrdd Rhaglen aml-asiantaeth ac aml-sector, dan gadeiryddiaeth Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru, Albert Heaney, i arwain y gwaith o ddatblygu ymatebion i'r ymrwymiad hwn a'i weithredu. Cyfarfu'r Bwrdd am y tro cyntaf ar 27 Medi. Cynrychiolir Comisiynydd Plant Cymru ar y Bwrdd.

Bydd y Bwrdd yn ystyried y ffordd orau o gyflawni'r gwaith hwn o fewn fframwaith llywodraethu cryf a thrwy asesiadau effaith trylwyr. Bydd cydweithio â'n rhanddeiliaid a sicrhau lles pennaf plant a phobl ifanc yn allweddol i lwyddo.

Bydd y Bwrdd yn datblygu amserlen i gyflawni'r ymrwymiad hwn.

Mae map bras yn cael ei ddatblygu a byddwn yn gweithio gyda Bwrdd y Rhaglen i'w ddatblygu'n fanylach.

2. Hawliau statudol i'r rhai sy'n gadael gofal

Argymhelliad y Comisiynydd Plant:

Rhaid i Lywodraeth Cymru fynd ati'n gyflym i gyflwyno hawliau statudol a pholisïau ar gyfer ymadawyr gofal, ar ffurf pecyn cydlynus.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn mewn egwyddor

Er ein bod yn bwriadu bwrw ymlaen â'r cynigion a awgrymwyd gan y Comisiynydd Plant fel pecyn cymorth i'r rhai sy'n gadael gofal, nid yw'r elfennau statudol yn berthnasol ym mhob achos.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i weithio gyda'n partneriaid i ddatblygu a gweithredu polisiau i gefnogi'r rhai sy'n gadael gofal i symud ymlaen yn llwyddiannus i fod yn annibynnol. Er mwyn gweithredu ar yr ymrwymiad hwn byddwn yn:

- Deddfu yn ystod y Tymor Senedd hwn i sicrhau bod gan bob un sy'n gadael gofal hawl i gael Cynghorydd Personol hyd at 25 oed;
- Arsylwi a dysgu o brofiad Lloegr o wahardd defnyddio lleoliadau heb eu rheoleiddio ar gyfer plant dan 16 oed. Defnyddio'r hyn a ddysgwn i archwilio opsiynau diogel a realistig i'w defnyddio yng Nghymru;
- Gyda'n partneriaid, parhau â'n gwaith i ddatblygu amrywiaeth o opsiynau llety o ansawdd da ar gyfer pobl sy'n gadael gofal; a
- Parhau i gynnig cymorth ychwanegol i'r rhai sy'n gadael gofal i symud ymlaen yn llwyddiannus i fyw'n annibynnol, ac mae hyn yn cynnwys parhau â'r cymorth a gynigir drwy Gronfa Dydd Gŵyl Dewi.

Rydym yn cefnogi egwyddor rhoi gwybodaeth glir am grantiau, budd-daliadau a hawliau sydd ar gael i bobl ifanc pan fyddant yn gadael gofal. Gwyddom fod sefydliadau'r trydydd sector a swyddfa'r Comisiynydd Plant wedi darparu gwybodaeth ariannol i gefnogi'r rhai sy'n gadael gofal. Hoffem harneisio ymdrechion y trydydd sector a phartneriaid i ddarparu'r adnodd hwn ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal.

Nid ydym yn bwriadu ymestyn y cynllun 'Pan Fyddaf yn Barod', sy'n berthnasol i blant mewn gofal maeth, i blant mewn gofal preswyl. Mae angen dull gweithredu gwahanol ar gyfer plant sydd mewn gofal preswyl. Rydym yn ystyried modelau amgen, er enghraifft trefnu i bobl ifanc o ofal preswyl barhau â'u cysylltiadau gyda gweithwyr proffesiynol o'u cartref gofal preswyl blaenorol a pharhau i gael eu cefnogaeth nhw. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i fwrw ymlaen â hyn, gan gynnwys y trydydd sector, awdurdodau lleol a swyddfa'r Comisiynydd Plant. Mae hyn yn rhan o'n gwaith i wella ystod ac opsiynau llety i bobl ifanc.

3. Rhianta corfforaethol

Argymhelliad y Comisiynydd Plant:

Rhaid i Lywodraeth Cymru:

- Gryfhau rôl rhianta corfforaethol Cymru trwy ddeddfwriaeth a chanllawiau, er mwyn sicrhau bod system ofal Cymru yn seiliedig ar hawliau ac yn galluogi plant i ffynnu mewn gofal. Mae'n arbennig o bwysig symud y gwaith hwn ymlaen, gan fod niferoedd uchel o bobl ifanc â phrofiad o ofal wedi ymwneud â'r broses hyd yma, a bydd ganddyn nhw ddisgwyliadau bod newidiadau pwysig i'w gwneud.
- Goruchwyllo a monitro'r broses o estyn yn eang y Protocol i Leihau Troseddoli Diangen Plant sy'n Derbyn Gofal, gyda chefnogaeth adnoddau a hyfforddiant i gryfhau arfer cyfredol.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

Cryfhau rôl rhianta corfforaethol Cymru

Mae 'Cryfhau cyrff cyhoeddus yn eu rôl fel 'rhiant corfforaethol' yn un o ymrwymadau allweddol y Rhaglen Lywodraethu. Mae'r cam gweithredu hwn yn adeiladu ar y gwaith paratoi a wnaed yn Nhymor blaenorol y Senedd a'r dull y cytunwyd arno gan Weinidogion.

Er bod rhianta corfforaethol yn cael ei gymryd o ddifrif gan awdurdodau lleol, ein nod yw cryfhau rhianta corfforaethol ar draws pob adran o fewn yr awdurdod lleol, er mwyn gallu gweithio mewn partneriaeth yn well a gwella'r pontio rhwng y gwasanaethau a ddarperir ar gyfer plant sydd wedi cael profiad o'r system ofal.

Rydym hefyd yn bwriadu ehangu'r cysyniad o rianta corfforaethol ar draws yr holl gyrff cyhoeddus sy'n darparu gwasanaethau i blant sydd wedi cael profiad o'r system ofal, er mwyn helpu i sicrhau eu bod yn cael yr ymateb a'r gefnogaeth orau gan y gwasanaethau hyn.

Sefydlwyd Grŵp Gweithredu Rhianta Corfforaethol i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r ymrwymiad hwn. Cynrychiolir amrywiaeth o randdeiliaid ar y Grŵp gan gynnwys y rhai sy'n gadael gofal eu hunain, y trydydd sector a chynrychiolydd o swyddfa'r Comisiynydd Plant.

Mae'r Grŵp yn canolbwyntio ar dri maes allweddol:

- Datblygu Siarter Wirfoddol sy'n nodi egwyddorion rhianta corfforaethol;
- Cynnal sgwrs a digwyddiadau cenedlaethol gydag awdurdodau lleol a'r sector cyhoeddus ehangach; a

- Datblygu canllawiau statudol i gryfhau cyfrifoldebau ac ymestyn dyletswyddau.

Mae gwaith eisoes yn cael ei wneud i ddatblygu'r Siarter Wirfoddol a chynhelir gweithdy penodol gyda phobl ifanc i'w datblygu ymhellach.

Unwaith y cytunir ar y Siarter ddrafft, trefnir cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu, gyda digwyddiadau penodol ar gyfer awdurdodau lleol, iechyd, tai ac addysg.

Rhagwelir y bydd y Siarter a'r gweithgarwch ymgysylltu yn helpu i lywio cynnwys y canllawiau statudol. Bydd hyn yn cynnwys pennod a ychwanegir at God Ymarfer Rhan 6, o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, a chaiff elfennau deddfwriaethol eraill eu hystyried i gryfhau'r trefniadau gyda chyrrff iechyd a chyrrff cyhoeddus eraill.

Protocol i Leihau Troseddu ymhlith Plant sy'n Derbyn Gofal

Bydd fersiwn derfynol o brotocol Cymru Gyfan ar leihau troseddu ymhlith plant, pobl ifanc ac oedolion ifanc sydd wedi cael profiad o'r system ofal yn cael ei chyhoeddi ym mis Rhagfyr 2021. Bydd hyn yn cefnogi ein safbwynt, sydd wedi'i hen sefydlu, sef y dylai plant a phobl ifanc sy'n dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol gael eu trin fel plant yn y lle cyntaf bob amser, a bod angen gwella'r sefyllfa i blant sydd wedi cael profiad o'r system ofal a'r rhai sy'n gadael gofal yn y system cyfiawnder troseddol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid perthnasol i godi ymwybyddiaeth o'r protocol ar ôl ei gyhoeddi.

Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i gytuno ar gynllun traws-lywodraethol i gefnogi'r dull gweithredu ar draws sefydliadau a gweithluoedd perthnasol. Byddwn yn nodi'r goblygiadau bras o ran y gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf wrth gefnogi camau gweithredu fel rhan o'r gwaith hwn.

4. Glasbrint Cyfiawnder Ieuencid

Argymhelliad y Comisiynydd Plant:

Mae angen i Lywodraeth Cymru arddangos cynnydd tuag at weithredu'r Glasbrint Cyfiawnder Ieuencid ymhellach, yn arbennig yr elfennau llety diogel.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru, ynghyd â phartneriaid allweddol, yn parhau i wneud cynnydd yn erbyn cerrig milltir allweddol er mwyn cyflawni'r Glasbrint Cyfiawnder Ieuencid.

Mae'r trefniadau ar gyfer cadw pobl ifanc yn y ddalfa wedi datblygu dros y 12 mis diwethaf, ac mae Cabinet Llywodraeth Cymru wedi cytuno ar weledigaeth ar gyfer rhoi llety diogel i blant Cymru sydd dan ddedfryd. Mae hyn yn adlewyrchu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i weithredu mewn ffordd sy'n trin unigolion fel plant yn y lle cyntaf, a'r rheini'n blant â hawliau.

Ers hynny, mae'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cytuno ar y model gweithredu newydd ar gyfer sicrhau llety diogel yng Nghymru a fydd yn golygu bod plant sydd yn y system gyfiawnder a phlant sy'n derbyn gofal yn cael eu cydleoli, gan atgyfnerthu ymhellach yr ymrwymiad i drin unigolion fel plant yn y lle cyntaf.

Mae'r prosiect ar gyfer cadw pobl ifanc yn y ddalfa bellach yn brosiect sy'n cael ei rannu rhwng Llywodraeth Cymru a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, ac mae'r trafodaethau yn parhau ynglŷn â'r trefniadau llywodraethu. Drwy ein hymrwymiad parhaus rydym yn gweithio i sicrhau bod y gwasanaethau gorau posibl ar gael ledled Cymru i'r rhai sy'n dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder ieuencid, neu sydd mewn perygl o wneud hynny.

5. Strategaeth Gofalwyr Di-dâl

Argymhelliad y Comisiynydd Plant:

Wrth i Gymru symud ymlaen gyda'i Strategaeth ar gyfer Gofalwyr Di-dâl, rhaid canolbwyntio'n ddigonol ar sut gall gwasanaethau gefnogi gofalwyr ifanc yn well.

Dylai Llywodraeth Cymru ymgysylltu'n uniongyrchol â phlant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofalu er mwyn sicrhau bod y strategaeth Gofalwyr Di-dâl yn adlewyrchu eu hanghenion ac yn hybu eu hawliau yn ddigonol.

Wrth i waith fynd rhagddo i roi sylw i anghydraddoldebau ym myd addysg a gwaith i ofalwyr Cymru, rhaid i'r ffrydiau gwaith hyn gysylltu â dull gweithredu ysgol gyfan Cymru, fel bod modd i ofalwyr ifanc gael mynediad at gefnogaeth gyfannol trwy eu rhwydweithiau.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

Bydd swyddogion yn ymgysylltu â gofalwyr ifanc yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn, yn uniongyrchol drwy gyfarfodydd ar-lein neu wyneb yn wyneb. Byddant yn cyfarfod â gofalwyr ifanc ac oedolion ifanc sy'n ofalwyr i drafod materion allweddol, gan gynnwys datblygiad y Strategaeth Gofalwyr Di-dâl. Bydd hyn yn cynnwys trafod ac adolygu Blaenoriaeth Genedlaethol 4, blaenoriaeth newydd sy'n canolbwyntio ar ofalwyr cyflogedig o bob oed, ac addysg a hyfforddiant i ofalwyr, gan gynnwys gofalwyr ifanc.

Byddwn yn parhau i weithio gydag Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru sy'n cynrychioli gofalwyr ifanc ar lefel genedlaethol. Byddwn hefyd yn parhau i weithio gyda Phlant yng Nghymru sy'n cael eu hariannu i gefnogi rhwydwaith gofalwyr ifanc gwasanaethau gwaith cymdeithasol a gofalwyr ifanc yng Nghymru.

Bydd swyddogion hefyd yn ceisio datblygu cyfleoedd i weithio'n agosach gyda gwasanaethau gofalwyr ifanc awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaethau'r trydydd sector a gomisiynwyd. Bydd hyn yn helpu swyddogion i ddeall y manteision i ofalwyr ifanc sy'n deillio o'r prosiect cerdyn adnabod cenedlaethol ar gyfer Gofalwyr Ifanc, a ddechreuodd ddiwedd 2019-20.

Mae'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol yn parhau i gyfarfod â grwpiau o ofalwyr ifanc bob blwyddyn i glywed am y materion sy'n effeithio arnynt.

Bydd swyddogion o'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio yn parhau i weithio ar draws Llywodraeth Cymru, yn enwedig gyda'r Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus, i sicrhau bod y materion a'r anghenion o ran cymorth a chefnogaeth i ofalwyr ifanc yn cael eu hystyried ac yn cael ymateb ar y cyd.

Cyhoeddwyd canllawiau statudol Llywodraeth Cymru (Fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol) i ysgolion, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill ym mis Mawrth 2021. Roedd y ddogfen hon yn cydnabod amgylchiadau ac anghenion penodol gofalwyr ifanc, ac y dylai ysgolion ystyried eu

lles fel rhan o'r broses o asesu lles cymuned yr ysgol gyfan, gan roi cymorth priodol ac amserol ar waith i'w galluogi i ddysgu.

ADDYSG, DINASYDDIAETH A GWEITHGAREDDAU DIWYLLIANNOL

6. Cwricwlwm i Gymru

Argymhelliad y Comisiynydd Plant:

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod yr holl staff addysgu a chymorth sy'n ymwneud â chyflwyno'r Cwricwlwm newydd i Gymru yn derbyn dysgu proffesiynol o safon uchel a chanllawiau cenedlaethol i ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o CCUHP a CCUHPA.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i gefnogi'r rhai sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd i hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau o dan Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021. Mae'n bwysig bod yr egwyddorion sydd wrth wraidd y confensiynau hyn yn rhan annatod o'r ffordd y cyflwynir Cwricwlwm i Gymru mewn ysgolion a lleoliadau eraill ledled Cymru.

Mae swyddogion yn gweithio gyda phartneriaid allweddol, gan gynnwys cynrychiolwyr o swyddfa'r Comisiynydd, i ddarparu pecyn cymorth i arweinwyr addysg, y mae disgwyl iddo gael ei gyhoeddi yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd (2022).

7. Dysgu proffesiynol

Argymhelliad y Comisiynydd Plant:

Rhaid i Lywodraeth Cymru ddatblygu ac ariannu cynnig cenedlaethol ar gyfer dysgu proffesiynol o safon uchel, fel bod modd i bob lleoliad yng Nghymru, erbyn mis Medi 2022, fod wedi elwa o'r dysgu proffesiynol hwn, a bod wedi nodi ymarferydd arweiniol arbenigol ar Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, sy'n gallu bwrw golwg dros ddull lleoliad cyfan o ymdrin â'r pwnc hwn sydd wedi'i integreiddio â'r cwricwlwm.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gefnogi ysgolion a lleoliadau â chyfleoedd dysgu proffesiynol o ansawdd uchel ar gyfer y maes gorfodol a thrawsbynciol hwn o'r cwricwlwm. Mae hefyd wedi ymrwymo i'r dull o ymdrin ag Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ar lefel lleoliad cyfan, a fydd yn cael ei amlinellu yng Nghyllwariu Statudol Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb sydd i gael eu cyhoeddi ym mis Ionawr 2022. Mae'r rhanbarthau yn gweithio gyda'u hysgolion, a byddant yn parhau i wneud hynny, i'w cefnogi gyda'r maes newydd a phwysig hwn o'r cwricwlwm.

8. Cymwysterau galwedigaethol

Argymhelliad y Comisiynydd Plant:

Mae angen bod gwybodaeth eglur, hygyrch yn cael ei chyfeirio at bob person ifanc, gan gynnwys y rhai sy'n sefyll cymwysterau galwedigaethol, ynghylch sut bydd eu cymwysterau'n cael eu dyfarnu yn 2022. Mae angen i'r wybodaeth hon fod ar gael cyn gynted â phosib, a dylai pobl ifanc fod yn rhan o ddatblygu'r negeseuon hyn.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbynn

Mae Gweinidog y Gymraeg ac Addysg wedi gweithio'n agos gyda rheoleiddiwr a chorff dyfarnu Cymru i sicrhau bod pobl ifanc yn cael gwybodaeth glir, sy'n hawdd cael gafael arni, am sut y caiff eu cymwysterau eu dyfarnu yn 2022, a bydd y Gweinidog yn parhau i wneud hynny. Trefnwyd gweithgarwch penodol ar gyfer dysgwyr a'u rhieni / gofalwyr i helpu i lywio'r addasiadau, gan ein helpu ni ar yr un pryd i deilwra a mireinio sut i gyfathrebu ynghylch addasiadau 2022. Cafodd yr wybodaeth am addasiadau 2022 ei chyfleu i ganolfannau ddiwedd tymor yr haf i lywio'r addysgu a'r gwaith cynllunio ar gyfer tymor yr hydref. Mae manylion llawn yr addasiadau hyn bellach wedi'u cyhoeddi ar wefan Cyd-bwyllgor Addysg Cymru (CBAC).

Hefyd:

- Mae Cymwysterau Cymru wedi sefydlu Grŵp Cyngori i Ddysgwyr i helpu i lywio trefniadau cymwysterau yn y dyfodol – mae hyn yn cynnwys 2022 a'r gyfres newydd o gymwysterau a fydd yn cael eu datblygu ar gyfer Cwricwlwm i Gymru;
- Ochr yn ochr â hyn, mae ail Grŵp Dysgwyr yn cael ei sefydlu i ganolbwyntio ar ddysgu galwedigaethol / seiliedig ar waith. Bydd y grŵp hwn yn helpu Cymwysterau Cymru i siarad â dysgwyr a deall yr heriau sy'n wynebu dysgwyr yn y gweithle neu ddysgwyr sy'n astudio cymwysterau galwedigaethol;
- Bydd y ddau grŵp hyn yn rhoi cyfle i bobl ifanc gyfrannu at ddatblygiadau polisi a chynghori ar negeseuon a gweithgareddau cyfathrebu;
- Mewn perthynas â 2022, mae'r bwriad i gynnal cyfres arholiadau eisoes wedi'i gyfleu (a byddwn yn parhau i wneud hyn yn glir). Cynhaliodd CBAC arolwg ar gyfer dysgwyr a'u rhieni / gofalwyr i helpu i lywio'r addasiadau a wneir fel na fydd dysgwyr dan anfantais oherwydd y tarfu a fu ar addysgu a dysgu;
- Cadarnhawyd yr addasiadau hyn i athrawon ddiwedd tymor yr haf i helpu i lywio'r addysgu a'r gwaith cynllunio ar gyfer yr hydref, ac mae manylion llawn bellach wedi'u cyhoeddi ar wefan CBAC;
- Ochr yn ochr â hyn, mae cynlluniau wrth gefn yn cael eu datblygu rhag ofn y bydd tarfu pellach. Unwaith y bydd y rhain wedi'u cwblhau, byddant yn cael eu

cyfleu gan ganolbwyntio ar y dysgwr ac adeiladu ar y dull gwell o gyfathrebu a ddilynodd Cymwysterau Cymru y llynedd; a

- Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio ochr yn ochr â Chymwysterau Cymru a CBAC i sicrhau bod trefniadau yn cael eu cyfleu'n glir, yn gydlynol ac yn amserol fel bod pob dysgwr yn deall sut y caiff eu cymwysterau eu hasesu eleni.

9. Adolygiad o drafnidiaeth dysgwyr

Argymhelliad y Comisiynydd Plant:

Nid wyf wedi gweld copi o'r Adolygiad o Drafnidiaeth Dysgwyr gorffenedig. Er bod y cyfyngiadau cyn-etholiad o fis Mawrth 2021 wedi atal cyhoeddi o bosib, ni ellir gadael y gwaith hwn a chamau gweithredu dilynol ar ôl ym mhumed tymor y Senedd.

Rwy'n disgwyl i Lywodraeth Cymru gyhoeddi eu canfyddiadau a chyflwyno'r camau a gymerir o ganlyniad i'w hadolygiad o Deithio gan Ddysgwyr.

Mae modd cyhoeddi canlyniadau interim os oes angen gwneud gwaith pellach, ond mae'n rhaid cyhoeddi gwybodaeth i sicrhau tryloywder a chyngnydd ar y mater hwn.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

Ni chyhoeddwyd yr adolygiad cychwynnol o'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru), a ddaeth i ben yn gynharach eleni (2021), oherwydd y cyfnod cyn etholiadau'r Senedd 2021, a gynhaliwyd ym mis Mai 2021. Daeth yn amlwg, o ganlyniad i drafodaethau a chysylltu â rhanddeiliaid fel rhan o'r adolygiad cychwynnol, fod problemau eraill ynghlwm â darpariaeth bresennol y Mesur Teithio gan Ddysgwyr sy'n golygu bod angen adolygiad pellach, mwy manwl. Bydd yr adroddiad interim yn cael ei gyhoeddi nawr a bydd swyddogion yn ystyried sut orau i symud ymlaen â'r gwaith pellach sy'n ofynnol er mwyn adolygu teithio gan ddysgwyr yng Nghymru.

10. Dull ysgol gyfan o ymdrin â llesiant

Argymhelliad y Comisiynydd Plant:

Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda rhanddeiliaid, ysgolion a phlant a phobl ifanc eu hunain i sicrhau bod uchelgais y dull ysgol gyfan o ymdrin â llesiant emosiynol a meddyliol yn cael cyfatebiaeth o ran adnoddau, capasiti a rhwydwaith cefnogi system gyfan ar draws y gwasanaethau perthnasol sy'n diwallu anghenion penodol pob ysgol.

Ble bynnag mae ysgol arni o ran dull gweithredu ysgol gyfan, dylen nhw fedru estyn allan a chael mynediad at gefnogaeth gan asiantaethau allanol perthnasol mewn modd sy'n cefnogi cynllun gweithredu penodol yr ysgol honno.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

Ym mis Mawrth 2021, gwnaethom gyhoeddi canllawiau statudol i ysgolion ac awdurdodau lleol ar ddiwallu anghenion lles dysgwyr (Fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol).

Mae'r fframwaith wedi'i gynllunio i helpu ysgolion i ddatblygu a chreu eu dulliau ysgol gyfan cyson a theg eu hunain o ymdrin â lles dysgwyr er mwyn diwallu eu hanghenion a'u hamgylchiadau penodol.

Rydym wedi darparu £9m yn ein cyllideb ar gyfer 2021-22 i gefnogi'r gwaith hwn. Mae'r cyllid yn cefnogi gwelliannau ac ehangu'r gwasanaeth cwnsela presennol mewn ysgolion; hyfforddi athrawon ac eraill ym maes lles plant; darparu ymyriadau cyffredinol a rhai wedi'u targedu mewn ysgolion; a chyflwyno'n raddol mewn ysgolion yn genedlaethol gynlluniau peilot gan Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) sy'n darparu gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol penodol i weithio gydag ysgolion.

11. Addysg yn y cartref

Argymhelliad y Comisiynydd Plant:

Rhaid i Lywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth sylfaenol i gyflawni'n llawn ei ymrwymadau i'r tri phrawf ar gyfer y maes polisi hwn; sef bod cyfrif am bob plentyn, eu bod yn derbyn addysg briodol a'u hawliau dynol eraill, ac er mwyn sicrhau hynny, bod pob plentyn yn cael cyfle i gael eu gweld, a gwrando ar eu barn a'u profiadau.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Gwrthod

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu defnyddio ei phwerau o dan is-ddeddfwriaeth i roi ar waith y cynigion yr ymgynghorwyd arnynt o'r blaen yn 2019 a 2020, yn amodol ar ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn derfynol.

Rhodddwyd gwaith yn y maes hwn i un ochr yn 2020, oherwydd effaith Covid-19 yn unig, ac mae wedi cael ei ail-ddechrau'n ddiweddar.

Credwn mai'r cynigion hyn fydd yn darparu'r ffordd fwyaf cymesur a phriodol ymlaen i sicrhau bod plant a phobl ifanc sy'n cael eu haddysgu yn y cartref yn cael addysg addas.

12. Ysgolion annibynnol

Argymhelliad y Comisiynydd Plant:

Rhaid i Lywodraeth Cymru weithredu mewn dau faes:

1. Rhoi sylw i faterion cofrestru Cyngor y Gweithlu Addysg (EWC) trwy ddeddfwriaeth newydd; mae hyn y tu allan i'r Rheoliadau perthnasol ac yn ddarn ar wahân o waith, y mae'n rhaid rhoi blaenoriaeth iddo a'i weithredu ar frys; a
2. Chynnal adolygiad llawn o'r rheoliadau cyfredol ar gyfer ysgolion annibynnol a chyflwyno rheoliadau diwygiedig a chryfach ar gyfer rhoi sylw i unrhyw fylchau neu ddiffygion.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

Ni ellir gorbwysleisio maint yr effaith y mae pandemig Covid-19 wedi'i chael ar waith beunyddiol y llywodraeth a'n gallu i gwblhau gwaith hanfodol ar draws portffolios.

Mae'r Llywodraeth wedi gorfod symud ei ffocws i sicrhau ein bod yn gallu ymladd y pandemig ac mae hyn wedi cael effaith sylweddol ar ei hadnoddau. Er gwaethaf yr heriau hyn, mae'r Llywodraeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi blaenoriaethu cyflwyno deddfwriaeth i roi'r pŵer i Gyngor y Gweithlu Addysg osod Gorchmynion Atal Dros Dro Interim, cam pwysig i gryfhau mesurau diogelu.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd diweddarau'r sefyllfa reoleiddiol mewn perthynas ag ysgolion annibynnol er mwyn sicrhau bod staff wedi'u cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg. Mae'r Llywodraeth hon wedi blaenoriaethu'r gwaith pwysig hwn; mae gwaith polisi yn mynd rhagddo ac mae amserlen ddrafft wedi'i datblygu a'i chytuno er mwyn bwrw ymlaen â'r deddfwriaeth. Bydd gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid yn digwydd dros y misoedd nesaf. Gan ddibynnu ar y broses ymgynghori a gwaith datblygu polisi pellach, y cynnig presennol yw y bydd deddfwriaeth yn dod i rym yn 2023 i'w gwneud yn ofynnol i staff ysgolion annibynnol gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg.

Ysgolion Annibynnol

Mae diweddarau'r rheoliadau ysgolion annibynnol yn parhau i fod yn flaenoriaeth.

Rydym yn adolygu'r fframwaith deddfwriaethol ac yn nodi'r newidiadau rheoleiddiol y mae gofyn eu gwneud i gryfhau'r rheoliadau ac i ddiogelu disgyblion.

Fel rhan o'r gwaith hwn byddwn yn adolygu'r canllawiau ar gyfer ysgolion annibynnol gan sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r gofynion deddfwriaethol a pholisi presennol. Er mwyn eu gwneud yn fwy hygyrch ac effeithiol byddwn yn gwahanu'r gofynion cofrestru ar gyfer ysgolion newydd oddi wrth y gofynion gweithredol parhaus.

Dechreuodd rhaglen lawn o ymgysylltu ag ysgolion annibynnol ym mis Hydref, a bydd hon yn parhau dros y misoedd nesaf wrth i ni fwrw ymlaen â'r gwaith i ddiwygio'r gyfres o reoliadau.

Bydd y gwaith hwn yn cyd-fynd â'r gwaith ar reoliadau cofrestru Cyngor y Gweithlu Addysg a'n bwriad yw dod â'r gyfres ddiwygiedig o reoliadau ysgolion annibynnol, y canllawiau diwygiedig ar gyfer ysgolion annibynnol a rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg i rym ar yr un pryd yn 2023.

13. Gwahardd Disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen

Argymhelliad y Comisiynydd Plant:

Rhaid i Lywodraeth Cymru bennu nod polisi clir i atal gwaharddiadau rhag cael eu rhoi i blant o dan 8 oed. Dylid newid y canllawiau statudol ar waharddiadau fel eu bod yn cynnwys ystyriaethau penodol ynghylch oed y plentyn ac yn cyflwyno dewisiadau clir yn lle gwahardd. Dylid cefnogi hyn â chynllun gweithredu ar gyfer cymorth cynnar.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

Rydym wedi ymrwymo i'r disgwyliad mai dim ond fel dewis olaf y dylid gwahardd disgyblion, fel y nodwyd yn ein canllawiau a ddiweddarwyd yn 2019. Mae'r rhain yn pennu'r cymorth y mae'n rhaid i ysgolion ac awdurdodau lleol ei roi ar waith ar gyfer pob plentyn sydd wedi'i wahardd o'r ysgol ac o unedau cyfeirio disgyblion. Heblaw yn yr amgylchiadau mwyaf eithriadol, dylai ysgolion osgoi gwahardd yn barhaol ddysgwyr â datganiadau o anghenion addysgol arbennig.

SAFON DDIGONOL O FYW

14. Rhaglen Law yn Llaw dros Blant a Phobl Ifanc

Argymhelliad y Comisiynydd Plant:

Rhaid i Lywodraeth Cymru barhau â'r rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc (T4CYP) er mwyn cefnogi rhoi dull gweithredu Dim Drws Anghywir ar waith, a model system gyfan NYTH, gan gynnwys y gwaith penodol o fewn y modelau hyn ar gyfer gwella cefnogaeth i blant niwroamrywiol.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn mewn egwyddor

Dim Drws Anghywir

Mae'r Llywodraeth yn llwyr gefnogi gweithredu'r dull Dim Drws Anghywir drwy fframwaith cynllunio system gyfan NYTH erbyn mis Mawrth 2022. Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol sy'n gyrru'r gwaith hwn.

Disgwylir i raglen y GIG, Law yn Llaw dros Blant a Phobl Ifanc, sy'n cefnogi gwaith gweithredu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ar hyn o bryd, ddod i ben ar 31 Mawrth 2022.

Rydym wrthi'n ystyried y ffordd orau o gefnogi Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol gyda'u gweithgarwch parhaus i blethu'r Fframwaith i wasanaethau wrth eu cynllunio a'u darparu.

Mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol hefyd wrthi'n ymateb i argymhellion Comisiynydd Plant Cymru ar weithredu'r dull Dim Drws Anghywir ac mae'r Comisiynydd Plant yn cyfarfod â'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn ystod hydref 2021 i edrych ar y cynnydd.

Gwasanaethau niwroddatblygiadol

Mae'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn bwrw ymlaen â rhoi'r model system gyfan NYTH ar waith, ochr yn ochr â'r dull Dim Drws Anghywir, a chyda'i gilydd byddant yn sicrhau cynnydd o ran cefnogi lles emosiynol a chyffredinol ein plant a'n pobl ifanc gan gynnwys y rhai sydd â chyflyrau niwroddatblygiadol.

Rydym yn gweithio gyda'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i gefnogi rhoi'r Cod Ymarfer statudol ar Ddarparu Gwasanaethau Awtistiaeth ar waith. Mae hyn yn cynnwys grant bach (£4,000) i gefnogi'r gwaith o ddatblygu seilwaith o grwpiau rhanddeiliaid a fframwaith monitro ar gyfer awtistiaeth. Bydd y grwpiau rhanddeiliaid hyn yn rhoi adborth ar y problemau a wynebir gan blant awtistig, eu rhieni a'u gofalwyr.

Dechreuodd adolygiad o'r galw ymhlith pob oedran am wasanaethau niwroddatblygiadol ac adolygiad o gapasiti ym mis Chwefror 2021, (fe'i gohiriwyd o 2020 oherwydd Covid-19) er mwyn deall yn well y pwysau parhaus ar y

gwasanaethau, yn enwedig amseroedd aros am asesiad. Cyflwynir adroddiad erbyn mis Mawrth 2022 a bydd yn cynnwys opsiynau ar gyfer gwella gwasanaethau yn y dyfodol er mwyn creu gwasanaethau cynaliadwy.

Darparwyd cyllid o £140,000 i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a phrofi'r proffil Do-it, sef Platfform Niwroamrywiaeth Cymru. Mae hyn yn cael ei dreialu ar hyn o bryd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Mae'n adnodd cymorth ar-lein niwroddatblygiadol sy'n seiliedig ar dystiolaeth a'i fwriad yw rhyddhau amser clinigwyr i gynyddu ac ategu'r gallu presennol i gynnal asesiadau a rhoi diagnosis niwroddatblygiadol. Hefyd bydd yn meithrin gwydnwch ac yn gwella effeithlonrwydd ar draws y system yn unol â mesurau gofal iechyd craff.

Bydd y Rhaglen Law yn Llaw dros Blant a Phobl Ifanc yn cefnogi gweithredu NYTH nes mis Mawrth 2022. Erbyn diwedd mis Mawrth 2022, bydd y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi cynhyrchu eu Hasesiadau o Anghenion y Boblogaeth a'u cynlluniau ar gyfer plant gan ddefnyddio Fframwaith NYTH fel eu hadnodd cynllunio i'w cefnogi â'r gwaith o gynllunio'u gwasanaethau yn y dyfodol. Bydd y cynlluniau hynny'n amlinellu gweithgarwch a drefnwyd am flynyddoedd i ddod, gan ymgorffori'r Fframwaith ynghynglun eu gwasanaethau a'r ffordd y'u darperir.

Mae Iechyd a Lles Emosiynol yn flaenoriaeth yn y gronfa fuddsoddi ranbarthol newydd a fydd yn para am 5 mlynedd. Diben y gronfa yw adeiladu ar waith y Gronfa Gofal Integredig a'r gronfa drawsnewid hyd yma a'r hyn a ddysgwyd drwyddynt. Bydd y gronfa newydd yn cynnig cefnogaeth bellach i'r broses o weithredu'r modelau gofal ac atal newydd hyn a bydd yn parhau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu ac ymgorffori ffyrdd integredig newydd o weithio ar draws meysydd iechyd a gofal cymdeithasol i gefnogi anghenion plant a phobl ifanc.

15. Pontio rhwng gwasanaethau iechyd

Argymhelliad y Comisiynydd Plant:

Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau trwy'r canllawiau a gyhoeddwyd bod adnoddau digonol ar gyfer y rolau newydd arweinyddion gweithredol a gweithwyr allweddol ym mhob Bwrdd Iechyd yng Nghymru.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbynn mewn egwyddor

Bydd y canllawiau'n canolbwyntio ar yr hyn y mae angen i wasanaethau iechyd ei wneud i sicrhau bod gweithdrefn effeithiol a threfnus ar waith i ddiwallu anghenion gofal iechyd integredig plant, pobl ifanc ac oedolion ifanc, ac i hybu ansawdd da a diogelwch, mynediad, awtonomi a gofal effeithlon ar gyfer gwell canlyniadau o ran iechyd.

Ar ôl eu cyhoeddi, bydd y canllawiau yn cefnogi cysondeb o ran gweithredu canllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) ac yn darparu cyfarwyddyd a thempled safonol i fyrddau ac ymddiriedolaethau iechyd Cymru allu datblygu canllawiau lleol cyfatebol.

Disgwylwn i fyrddau iechyd sicrhau nad oes unrhyw ostwng ansawdd o ran unrhyw wasanaeth a ddarperir, a bod ymgysylltu parhaus a phrofiad da i'r claf wrth fynd ati i drosglwyddo gofal o'r gwasanaethau pediatrig i'r gwasanaethau ar gyfer oedolion.

16. Eiriolaeth annibynnol cysylltiedig â iechyd

Argymhelliad y Comisiynydd Plant:

Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau newydd ar gyfer pob bwrdd iechyd, yn sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru yn cael mynediad at eiriolaeth annibynnol cysylltiedig â iechyd os bydd angen hynny arnyn nhw. Dylai'r canllawiau hyn fod yn seiliedig ar y gwaith a wnaed hyd yma, a chael eu cyhoeddi yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn mewn egwyddor

Cynhaliwyd cyfarfodydd rhagarweiniol yn 2019 gyda phartneriaid mewn perthynas â chanllawiau ar gyfer eiriolaeth sy'n gysylltiedig ag iechyd. Oherwydd pandemig Covid-19, rhoddwyd y gwaith hwn i'r neilltu tra bod swyddogion yn ymateb i'r pandemig ac yn parhau i ganolbwyntio ar ailadeiladu ein gwasanaethau iechyd.

Ar ddechrau'r pandemig, cysylltodd swyddogion â Chadeirydd grŵp Eiriolaeth Cymru Gyfan i weld a oedd unrhyw fodd iddynt allu parhau i weithio ar hyn tra bod Llywodraeth Cymru ynghlwm â materion eraill, ond nid oedd hynny'n bosibl.

Bydd Llywodraeth Cymru yn ailgydio yn y gwaith hwn cyn gynted ag y bydd adnoddau'n caniatáu, ond yn realistig mae hyn yn annhebygol o ddigwydd yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22.

17. Diwygio gofal cymdeithasol

Argymhelliad y Comisiynydd Plant:

Mae'r Rhaglen Lywodraethu hyd at 2026 yn cynnwys bwriadau uchelgeisiol ar gyfer diwygio gofal cymdeithasol a'i integreiddio â gofal iechyd. Rhaid i waith cynnar ar y flaenoriaeth hon roi sylw i fater hirsefydlog Gofal Parhaus, a rhaid i blant a phobl ifanc a'u teuluoedd fod yn rhan o gael hyd i'r atebion hynny.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau diwygiedig ar Ofal Parhaus i Blant ym mis Mawrth 2020. Lluniwyd y canllawiau newydd i'w defnyddio gan bawb sy'n cynllunio ac yn darparu gwasanaethau Gofal Parhaus i blant mewn byrddau iechyd, awdurdodau lleol a'u partneriaid, ac roeddent yn disodli canllawiau blaenorol 2012 nad oeddent yn adlewyrchu newidiadau i ddeddfwriaeth a oedd wedi digwydd ers hynny.

Cafodd y canllawiau newydd eu llunio ar y cyd ag ymarferwyr o'r gwasanaethau iechyd a chymdeithasol ac maent yn rhoi ystyriaeth lawn i adborth oddi wrth randdeiliaid yn dilyn digwyddiad ymgysylltu mawr lle'r oedd o leiaf 80 o gynrychiolwyr yn bresennol o fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol, yn ogystal ag adborth o ymgynghoriad cyhoeddus am 12 wythnos lawn.

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl yr ymdrinnir â phryderon lleol yn lleol gan bartneriaid ar draws y GIG a gofal cymdeithasol. Efallai bod lle i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol helpu i fynd i'r afael â'r materion hyn, a bydd swyddogion yn archwilio'r opsiwn hwn.

Mae swyddogion yn gweithio'n agos gyda byrddau iechyd sy'n dyfeisio hyfforddiant ar ofal parhaus ac maent hefyd yn gweithio gyda'r Cyfarwyddwr Cenedlaethol dros Ofal Cymhleth, sydd wedi cynhyrchu cynllun gweithredu lefel uchel a'r gobaiith yw yr aiff hwn i'r afael â'r materion a nodwyd.

18. Adolygiad o'r bwyd y gellir ei hawlio mewn ysgolion

Argymhelliad y Comisiynydd Plant:

Rhaid i Lywodraeth Cymru gynnal ei hadolygiad o'r bwyd y gellir ei hawlio mewn ysgolion heb oedi, i gynnwys cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim, a sicrhau bod brecwast ysgol yn cyrraedd cynifer o blant â phosibl, gan gynnwys y rhai sydd angen y ddarpariaeth hon fwyaf.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Mae dwy ran i'r argymhelliad hwn. Mewn perthynas â'r rhan gyntaf ynglŷn â phrydau ysgol am ddim, rydym yn derbyn yr argymhelliad hwn. Mae ail ran yr argymhelliad yn ymwneud â brecwast am ddim mewn ysgolion a derbyniwn y rhan hon o'r argymhelliad mewn egwyddor.

Prydau Ysgol Am Ddim

Mae ein Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys ymrwymiad i barhau i ymateb i'r cynnydd yn y galw am brydau ysgol am ddim sy'n deillio o'r pandemig ac i adolygu'r meini prawf ar gyfer cymhwystra, gan ymestyn yr hawl cyn belled ag y mae adnoddau'n caniatáu. Rydym eisoes wedi neilltuo dros £60 miliwn o gyllid ychwanegol yn ystod blwyddyn ariannol 2020/21 ar gyfer prydau ysgol am ddim. Rydym yn darparu £23.3 miliwn ychwanegol i roi prydau ysgol am ddim yn ystod gwyliau'r ysgol ar gyfer y flwyddyn 2021-22 gyfan.

Mae'r adolygiad o feini prawf cymhwystra prydau ysgol am ddim wedi hen gychwyn. Mae gennym nifer o ffrydiau gwaith sy'n cydreddeg i sefydlu rhyngddibyniaeth polisïau a grantiau eraill Llywodraeth Cymru a bydd y rhain yn parhau i weithredu. Bydd yr adolygiad o feini prawf cymhwystra prydau ysgol am ddim yn cynnwys nifer o opsiynau. Er nad ydym wedi diystyru unrhyw beth, rydym am sicrhau bod y cyllid yn cael ei ddefnyddio er budd y teuluoedd sydd fwyaf ei angen.

Brecwast Am Ddim Mewn Ysgolion

Nid yw cymhwystra plentyn i gael prydau ysgol am ddim yn berthnasol i frecwastau am ddim mewn ysgolion, gan fod hynny'n 'ddarpariaeth gyffredinol'. Nid oes dim yn y ddeddfwriaeth bresennol sy'n rhoi'r pŵer i awdurdodau lleol neu ysgolion osod meini prawf i benderfynu, ac o ganlyniad gyfyngu o bosibl, ar hawl disgybl i gael brecwast am ddim yn yr ysgol.

Nod y fenter Brecwast am Ddim mewn Ysgolion Cynradd yw darparu cyfle i ddisgyblion o oedran ysgol gynradd, sydd wedi'u cofrestru mewn ysgolion cynradd a gynhelir yng Nghymru, gael brecwast iach am ddim yn yr ysgol bob dydd. Mae'n ei gwneud yn bosibl i'r disgyblion hynny nad ydynt, am ba reswm bynnag, wedi cael brecwast, gael un yn yr ysgol.

Ni ddylai unrhyw blentyn fod yn llwglyd, ac mae angen i awdurdodau lleol ac ysgolion weithio mewn partneriaeth â theuluoedd sy'n cael anhawster i sicrhau eu bod yn cael gwybod am y ddarpariaeth brecwast am ddim ac yn gallu elwa arni.

Yn 2015 cyhoeddodd ymchwilwyr ym Mhrifysgol Caerdydd dystiolaeth o gysylltiadau uniongyrchol a chadarnhaol rhwng bwyta brecwast a chyrhaeddiad addysgol.

Yn 2017, cyhoeddodd ymchwilwyr o'r Sefydliad Astudiaethau Cyllidol, Prifysgol Warwick a Phrifysgol Bryste dystiolaeth bod darparu clwb brecwast mewn ysgolion difreintiedig yn cael effaith gadarnhaol ar gyrhaeddiad disgyblion (yn cyfateb i tua 2 fis o gynnydd).

Mae gwaith ymchwil wedi dangos bod cefnogi rhaglen frecwast am flwyddyn mewn ysgolion difreintiedig yn cynnig manteision academaidd tebyg i ddarparu prydau ysgol am ddim i bawb.

Fel rhan o adolygiad ehangach o fwyta'n iach mewn ysgolion, a fydd yn cynnwys adolygiad o'r Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Cymru) 2013, byddwn yn edrych ar sut y gallwn wella ar y fenter brecwast am ddim mewn ysgolion cynradd. Ni ragwelir y bydd yr adolygiad o fwyta'n iach mewn ysgolion yn cychwyn nes ein bod wedi diwygio'r meini prawf cymhwysra ar gyfer prydau ysgol am ddim.

Atodiad A – Crynodeb o Ymateb Llywodraeth Cymru

Argymhelliad		Ymateb Llywodraeth Cymru
Amgylchedd Teulu a Gofal Amgen		
1.	Rhaid i Lywodraeth Cymru gyflwyno map erbyn 1 Ebrill 2022 sy'n nodi amserlen a chamau gweithredu y byddant yn eu cymryd i ddechrau dod ag elw i ben yn y ddarpariaeth gofal cymdeithasol i blant.	Derbyn
2.	Rhaid i Lywodraeth Cymru fynd ati'n gyflym i gyflwyno hawliau statudol a pholisïau ar gyfer ymadawyr gofal, ar ffurf pecyn cydlynus.	Derbyn mewn egwyddor
3.	Rhaid i Lywodraeth Cymru: <ul style="list-style-type: none"> Gryfhau rôl rhianta corfforaethol Cymru trwy ddeddfwriaeth a chanllawiau, er mwyn sicrhau bod system ofal Cymru yn seiliedig ar hawliau ac yn galluogi plant i ffynnu mewn gofal. Mae'n arbennig o bwysig symud y gwaith hwn ymlaen, gan fod niferoedd uchel o bobl ifanc â phrofiad o ofal wedi ymwneud â'r broses hyd yma, a bydd ganddyn nhw ddisgwyliadau bod newidiadau pwysig i'w gwneud. Goruchwylio a monitro'r broses o estyn yn eang y Protocol i Leihau Troseddoli Diangen Plant sy'n Derbyn Gofal, gyda chefnogaeth adnoddau a hyfforddiant i gryfhau arfer cyfredol. 	Derbyn
4.	Mae angen i Lywodraeth Cymru arddangos cynnydd tuag at weithredu'r Glasbriant Cyfiawnder leuenctid ymhellach, yn arbennig yr elfennau llety diogel.	Derbyn
5.	Wrth i Gymru symud ymlaen gyda'i Strategaeth ar gyfer Gofalwyr Di-dâl, rhaid canolbwyntio'n ddigonol ar sut gall gwasanaethau gefnogi gofalwyr ifanc yn well. Dylai Llywodraeth Cymru ymgysylltu'n uniongyrchol â phlant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofalu er mwyn sicrhau bod y strategaeth Gofalwyr Di-dâl yn adlewyrchu eu hanghenion ac yn hybu eu hawliau yn ddigonol. Wrth i waith fynd rhagddo i roi sylw i anghydraddoldebau ym myd addysg a gwaith i ofalwyr Cymru, rhaid i'r ffrydiau gwaith hyn gysylltu â dull gweithredu ysgol gyfan Cymru, fel bod modd i ofalwyr ifanc gael mynediad at gefnogaeth gyfannol trwy eu rhwydweithiau.	Derbyn
Addysg, Dinasyddiaeth a Gweithgareddau Diwylliannol		
6.	Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod yr holl staff addysgu a chymorth sy'n ymwneud â chyflwyno'r Cwricwlwm newydd i Gymru yn derbyn dysgu proffesiynol o safon uchel a chanllawiau cenedlaethol i ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o CCUHP a CCUHPA.	Derbyn
7.	Rhaid i Lywodraeth Cymru ddatblygu ac ariannu cynnig cenedlaethol ar gyfer dysgu proffesiynol o safon uchel, fel bod modd i bob lleoliad yng Nghymru, erbyn mis Medi 2022, fod wedi elwa o'r dysgu proffesiynol hwn, a bod wedi nodi ymarferydd arweiniol arbenigol ar Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, sy'n gallu bwrw golwg dros ddull lleoliad cyfan o ymdrin â'r pwnc hwn sydd wedi'i integreiddio â'r cwricwlwm.	Derbyn

Argymhelliad	Ymateb Llywodraeth Cymru
<p>8. Mae angen bod gwybodaeth eglur, hygyrch yn cael ei chyfeirio at bob person ifanc, gan gynnwys y rhai sy'n sefyll cymwysterau galwedigaethol, ynghylch sut bydd eu cymwysterau'n cael eu dyfarnu yn 2022. Mae angen i'r wybodaeth hon fod ar gael cyn gynted â phosib, a dylai pobl ifanc fod yn rhan o ddatblygu'r negeseuon hyn.</p>	Derbyn
<p>9. Nid wyf wedi gweld copi o'r Adolygiad o Drafnidiaeth Dysgwyr gorffenedig. Er bod y cyfyngiadau cyn-etholiad o fis Mawrth 2021 wedi atal cyhoeddi o bosib, ni ellir gadael y gwaith hwn a chamau gweithredu dilynol ar ôl ym mhumed tymor y Senedd.</p> <p>Rwy'n disgwyl i Lywodraeth Cymru gyhoeddi eu canfyddiadau a chyflwyno'r camau a gymerir o ganlyniad i'w hadolygiad o Deithio gan Ddysgwyr.</p> <p>Mae modd cyhoeddi canlyniadau interim os oes angen gwneud gwaith pellach, ond mae'n rhaid cyhoeddi gwybodaeth i sicrhau tryloywder a chynnydd ar y mater hwn.</p>	Derbyn
<p>10. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda rhanddeiliaid, ysgolion a phlant a phobl ifanc eu hunain i sicrhau bod uchelgais y dull ysgol gyfan o ymdrin â llesiant emosiynol a meddyliol yn cael cyfatebiaeth o ran adnoddau, capasiti a rhwydwaith cefnogi system gyfan ar draws y gwasanaethau perthnasol sy'n diwallu anghenion penodol pob ysgol.</p> <p>Ble bynnag mae ysgol arni o ran dull gweithredu ysgol gyfan, dylen nhw fedru estyn allan a chael mynediad at gefnogaeth gan asiantaethau allanol perthnasol mewn modd sy'n cefnogi cynllun gweithredu penodol yr ysgol honno.</p>	Derbyn
<p>11. Rhaid i Lywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth sylfaenol i gyflawni'n llawn ei ymrwymadau i'r tri phrawf ar gyfer y maes polisi hwn; sef bod cyfrif am bob plentyn, eu bod yn derbyn addysg briodol a'u hawliau dynol eraill, ac er mwyn sicrhau hynny, bod pob plentyn yn cael cyfle i gael eu gweld, a gwrando ar eu barn a'u profiadau.</p>	Gwrthod
<p>12. Rhaid i Lywodraeth Cymru weithredu mewn dau faes:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Rhoi sylw i faterion cofrestru Cyngor y Gweithlu Addysg (EWC) trwy ddeddfwriaeth newydd; mae hyn y tu allan i'r Rheoliadau perthnasol ac yn ddarn ar wahân o waith, y mae'n rhaid rhoi blaenoriaeth iddo a'i weithredu ar frys; a 2. Chynnal adolygiad llawn o'r rheoliadau cyfredol ar gyfer ysgolion annibynnol a chyflwyno rheoliadau diwygiedig a chryfach ar gyfer rhoi sylw i unrhyw fylchau neu ddiffygion. 	Derbyn
<p>13. Rhaid i Lywodraeth Cymru bennu nod polisi clir i atal gwaharddiadau rhag cael eu rhoi i blant o dan 8 oed. Dylid newid y canllawiau statudol ar waharddiadau fel eu bod yn cynnwys ystyriaethau penodol ynghylch oed y plentyn ac yn cyflwyno dewisiadau clir yn lle gwahardd. Dylid cefnogi hyn â chynllun gweithredu ar gyfer cymorth cynnar.</p>	Derbyn

Argymhelliad		Ymateb Llywodraeth Cymru
Safon Ddigonol o Fyw		
14.	Rhaid i Lywodraeth Cymru barhau â'r rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc (T4CYP) er mwyn cefnogi rhoi dull gweithredu Dim Drws Anghywir ar waith, a model system gyfan NYTH, gan gynnwys y gwaith penodol o fewn y modelau hyn ar gyfer gwella cefnogaeth i blant niwroamrywiol.	Derbyn mewn egwyddor
15.	Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau trwy'r canllawiau a gyhoeddwyd bod adnoddau digonol ar gyfer y rolau newydd arweinyddion gweithredol a gweithwyr allweddol ym mhob Bwrdd Iechyd yng Nghymru.	Derbyn mewn egwyddor
16.	Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau newydd ar gyfer pob bwrdd iechyd, yn sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru yn cael mynediad at eiriolaeth annibynnol cysylltiedig â iechyd os bydd angen hynny arnyn nhw. Dylai'r canllawiau hyn fod yn seiliedig ar y gwaith a wnaed hyd yma, a chael eu cyhoeddi yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22.	Derbyn mewn egwyddor
17.	Mae'r Rhaglen Lywodraethu hyd at 2026 yn cynnwys bwriadau uchelgeisiol ar gyfer diwygio gofal cymdeithasol a'i integreiddio â gofal iechyd. Rhaid i waith cynnar ar y flaenoriaeth hon roi sylw i fater hirsefydlog Gofal Parhaus, a rhaid i blant a phobl ifanc a'u teuluoedd fod yn rhan o gael hyd i'r atebion hynny.	Derbyn
18.	Rhaid i Lywodraeth Cymru gynnal eu hadolygiad o'r bwyd y gellir ei hawlio mewn ysgolion heb oedi, i gynnwys cymhwysedd ar gyfer pryddau ysgol am ddim, a sicrhau bod brechwast ysgol yn cyrraedd cynifer o blant â phosibl, gan gynnwys y rhai sydd angen y ddarpariaeth hon fwyaf.	Derbyn Derbyn mewn egwyddor